| | |
|---|---|
| Adroddiad i'r: | Pwyllgor Cynllunio |
| Dyddiad y Cyfarfod: | 11 Hydref 2017 |
| Aelod / Swyddog Arweiniol: | Y Cyng Brian Jones, Aelod Arweiniol ar gyfer Priffyrdd, Cynllunio a Theithio Cynaliadwy / Angela Loftus, Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai |
| Awdur yr Adroddiad: | Karsten Bruβk, Swyddog Cynllunio Strategol |
| Teitl: | Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006 – 2021: Adroddiad Monitro Blynyddol Drafft 2017 |

1. **Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Cyhoeddiad arfaethedig Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006 – 2021 a chyflwyno'r ddogfen i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref 2017.

2. **Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Rhoi gwybod i'r Aelodau am gynnwys Adroddiad Monitro Blynyddol 2017 y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl).

3. **Beth yw'r Argymhellion?**

Bod yr Aelodau'n nodi cynnwys Adroddiad Monitro Blynyddol y CDLl 2017, Atodiad 1.

4. **Manylion yr adroddiad**

Dan rwymedigaethau adran 76 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, fel y'i diwygiwyd, ac adran 37 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005, mae dyletswydd ar y Cyngor i lunio adroddiad monitro blynyddol i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref bob blwyddyn a'i gyhoeddi ar ei wefan.

Mae monitro yn ddolen adborth hanfodol o fewn y broses o lunio polisïau. Dylai nodi'r heriau allweddol, y cyfleoedd a'r dulliau posibl o symud ymlaen er

mwyn adolygu ac addasu polisïau lleol. Mae'r broses yn arf ar gyfer mesur perthnasedd a llwyddiant y CDLl a nodi unrhyw newid sydd eu hangen. Mae hefyd yn rhoi adborth ar y graddau mae strategaeth a pholisïau’r CDLl yn cael eu darparu a'u cyflawni.

I gyd-fynd â chynhyrchu'r adroddiad hwn, mae’r Cyngor wedi cyhoeddi Adroddiad Adolygu Drafft y CDLl ac yn ymgynghori ar y cynnig i ddechrau adolygu’r CDLl presennol a pharatoi CDLl newydd ar ddechrau 2018. Mae pob dogfen Adolygu Drafft y CDLl yn cael eu cyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Ddinbych. Mae’r ddwy ddogfen, h.y. AMR ac Adroddiad Adolygu Drafft y CDLl, yn tynnu ar berfformiad polisi lleol a, gan hynny, yn cyd-fynd â’i gilydd.

Dyma'r trydydd Adroddiad Monitro Blynyddol a baratowyd gan Gyngor Sir Ddinbych, ac mae’n ategu’r ddau adroddiad monitro blynyddol blaenorol yn 2015 a 2016 mewn perthynas â pherfformiad polisi lleol a chasglu tystiolaeth hanfodol ar gyfer yr Adolygiad o’r CDLl sydd i ddod.

Mae'r adroddiad hwn yn trafod y polisïau lleol nad ydynt yn perfformio yn ôl y disgwyl neu lle mae newidiadau cyfreithiol yn bwysicach na dangosyddion a lefelau trothwy a ddiffiniwyd yn flaenorol. Mae wedi dod i’r amlwg dros y pedair blynedd diwethaf ers mabwysiadu’r CDLl nad yw tri phrif faes canlynol y polisi lleol yn perfformio yn ôl y disgwyl a'u bod yn debyg o gael eu hadolygu fel rhan o’r CDLl newydd sydd i ddod.

- Strategaeth Twf y CDLl – methiant i ddarparu nifer o anheddau fel yr amlinellir ym mhennod 5 y CDLl, wedi ei gysylltu â gofyniad Nodyn Cyngor Technegol 1 i gael ‘5 mlynedd o gyflenwad tir ar gyfer tai;
- Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr – mynd i’r afael â’r angen a nodwyd yn yr ‘Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr’; a
- Rheoli Gwastraff a Mwynau – mae newidiadau deddfwriaethol a rheoleiddio yn ei gwneud yn ofynnol i ddiwygio polisïau lleol a dangosyddion monitro cysylltiedig.

Mae manylion pellach ar y tri thestun yma, gan gynnwys gwybodaeth gefndirol a goblygiadau ar gyfer polisïau lleol cysylltiedig ar gael yn yr Adroddiad Adolygu Drafft a’r Papurau Gwybodaeth ategol (Creu Cymunedau Cynaliadwy a Hybu Economi Gynaliadwy).

5. **Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Nid oes angen penderfyniad ar yr eitem hon. Fodd bynnag, mae'r CDLl yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol canlynol drwy nodi'r ble a sut bydd datblygiadau newydd yn cael eu gwneud yn y Sir hyd at 2021:

- Datblygu'r economi lleol;
- Sicrhau mynediad at dai o ansawdd da; a
- Moderneiddio’r Cyngor i ddarparu arbedion effeithlonrwydd a gwella gwasanaethau i’n cwsmeriaid

6. **Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes unrhyw gost am gymryd sylw o gynnwys yr adroddiad hwn.

7. **Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o’r Effaith ar Les? Gellir lawrlwytho Adroddiad yr Asesiad o Effaith ar Les gyflawn oddi ar y wefan, a dylid ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad.**

Nid oes Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) wedi cael ei gynnal am nad yw'r adroddiad yn ceisio penderfyniad ar bolisi, strategaeth, trefn waith na rhaglen y Cyngor. Mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn cynnwys data ystadegol yn bennaf sy'n dangos perfformiad y CDLl.

8. **Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

Ni chynhaliwyd ymgynghoriad gydag Archwilio.

9. **Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Ni cheisiwyd Datganiad gan y Prif Swyddog oherwydd natur y ddogfen a’r penderfyniad.

10. **Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Nid oes unrhyw risg wedi ei nodi.

11. **Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae'r ddyletswydd statudol i gynhyrchu adroddiad monitro blynyddol wedi ei hamlinellu yn Adran 76 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004.